Mr Steven Woolgar
Partnerships in Care
2 Imperial Place
MaxwellRoad
Borehamwood
Hertfordshire
WD6 1JN

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John powell@wales.gsi.gov.uk

1 Ebrill 2014

Annwyl Mr Woolgar,

**Parthed: Ymweliad ag Aderyn ar y 3, 4 a 5 Mawrth 2014**

Fel y gwyddoch, fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal ymweliad dirybudd ag ysbyty annibynnol Aderyn gyda'r nos ar 3 a drwy'r dydd ar y 4 a 5 Mawrth 2014. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom feysydd sy'n haeddu sylw a dyma rai ohonynt;

- Y berthynas dda a welsom rhwng y cleifion a'r staff.
- Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol o safbwynt ansawdd, amrywiaeth a thymheredd y bwyd.
- Cynhaliwyd archwiliadau rheolaidd dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a chynhwysent bob agwedd ar lwybr y cleifion, gan gynnwys papurau cyfreithiol priodol a'r hawliau a esbonnir dan adran 132 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Roedd dewis da iawn o weithgareddau ar gael i'r cleifion ac roedd nifer dda iawn o'r cleifion yn cyfranogi yn y gweithgareddau hynny.
- Tîm staff llawn cymhelliant.
- Roedd amrywiaeth da o wybodaeth ar gael yn hawdd i gleifion.



Healthcare Inspectorate Wales • Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Welsh Government • Llywodraeth Cymru
Rhydycar Business Park • Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tydfil • Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Tel • Ffôn 0300 062 8163
Fax • Ffacs 0300 062 8387
www.hiw.org.uk

- Roedd cleifion yn cael eu galluogi i gyfranogi i gynllunio eu hadferiad a'u gweithgareddau dyddiol drwy gyfrwng y dyddiadur a chyfarfodydd cymunedol.

- Teimlai'r cleifion y gweithredwyd ar y sylwadau a'r adborth yr oeddent yn eu mynegi drwy gyfrwng y dyddiadur a'r cyfarfodydd cymunedol.

- Roedd y llawlyfr 'The Compass' i gleifion newydd, a wnaed gan gleifion, yn llawn gwybodaeth ac yn brosiect cadarnhaol.

Fe wnaeth ein hymweliad amlygu llawer o bryderon hefyd. Darparom drosolwg o'n pryderon ar lafar i'ch rheolwr cofrestredig ar ddiwedd ein hymweliad ar 5 Mawrth 2014. Mae crynodeb o'r rhain, sy'n cynnwys manylion y rheoliadau sy'n cael eu torri i'w gweld isod:

| **Y mater sy'n peri pryder** | **Rheoliad** |
|---|---|
| 1. Nid oedd y gwely yn ystafell 17 yn addas ar gyfer matres llif aer ac roedd risg y gallai'r claf fynd yn sownd wrtho a chwympo allan, dros ben canllawiau'r gwely. Rhaid darparu gwely priodol sy'n addas ar gyfer matres llif aer. Ar ôl yr arolygiad hysbyswyd AGIC y rhoddwyd sylw i'r maes hwn. | Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (d) a 15 (2) |
| 2. Roedd llawer iawn o baent yn plicio i ffwrdd yn yr ystafell las/ystafell dawel yn ogystal â thamprwydd wrth y ffenest. Mae gofyn cynnal rhaglen o waith atgyweirio i roi sylw i'r difrod dŵr/tamprwydd yn yr ystafell las. | Rheoliad 26 (2) (b) |
| 3. Archwiliom yr ystafell driniaethau/clinig a nodi'r canlynol:<br>a. Roedd y bin gwaredu cyffuriau'n llawn a bu'n aros i gael ei gasglu ers cryn amser.<br>b. Nid oedd cyffuriau'n gysylltiedig â chlaf A dyddiedig 8 Ionawr 2014 wedi'u gwaredu'n briodol.<br>c. Roedd y label ar rai tabledi Propranol wedi cael ei dynnu i ffwrdd, gydag olion wedi'i adael ar y bocs.<br>d. 'Etodoial' oedd ar y ddalen bresgripsiwn ar gyfer claf B pan ddylai ddarllen 'Eccoxolac'.<br>e. Roedd amrywiol feddyginiaethau, gan gynnwys movicol a laxido ar waelod y troli a ddim dan glo.<br>*Cadwyd yr eitemau hyn pan dynnwyd sylw atynt yn ystod yr ymweliad.*<br>f. Ni roddwyd meddyginiaeth i glaf C ddwywaith ac ni chofnodwyd rheswm am beidio â gwneud hynny. | Rheoliad 15 (5) (a) a (b) |

| | |
|---|---|
| g. Nid oedd dim gorchudd ar y masg ocsigen. *Cywirwyd hyn pan dynnwyd sylw at y mater yn ystod yr ymweliad.*<br>h. Bu bwlch o 4 diwrnod pan na roddwyd meddyginiaeth i glaf D gan nad oedd y feddyginiaeth ar gael. D.S. Roedd hon yn feddyginiaeth stoc.<br>i. Archebwyd eli ar gyfer claf E ar 28 Chwefror 2014 ond roedd yn dal heb ddod i law erbyn diwedd ein hymweliad.<br><br>Rhaid rhoi sylw i'r holl feysydd a nodir ar frys. | |
| 4. Nid oedd rhaglen fewnol o weithgareddau addysgol penodol yn yr ysbyty. Rhaid rhoi rhaglen o weithgareddau addysgol ar waith. | Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c) |
| 5. Roedd llawer o staff nad oeddent wedi cael eu hyfforddiant gorfodol. Ymysg y meysydd sydd angen sylw y mae; diogelwch tân (11 o'r staff); iechyd a diogelwch (10 o'r staff); rheoli heintiau (12 o'r staff) a rheoli trais ac ymddygiad ymosodol (2 o'r staff). Rhaid i'r holl staff gael hyfforddiant perthnasol, yn y meysydd a nodir yn benodol. | Rheoliad 20 (2) (a) |
| 6. Roedd dau o'r staff cronfa (F a G) na chawsant sesiwn ymgyfarwyddo/cynefino wedi'i chofnodi yn Aderyn. Rhaid i'r holl staff cronfa gael sesiwn ymgyfarwyddo/cynefino wedi'i chofnodi ar gyfer yr ysbyty. | Rheoliad 20 (1) (a) a (b) |
| 7. Edrychom ar gofnodion nifer o gleifion a nodwyd y canlynol:<br>a. Roedd claf H ar analgesia ar bresgripsiwn, er hynny, nid oedd dim tystiolaeth o asesiad risg poen nac adolygiad o'r feddyginiaeth ar ffeil.<br>b. Nid oedd yn y cynllun gofal ar gyfer claf H ar fethiant y galon wybodaeth am beth i'w wneud mewn argyfwng, megis rhoi ocsigen.<br>c. Nid oedd yn y cynllun gofal cathetr ar gyfer claf C fanylder nac arweiniad i staff, gan gynnwys newid dyddiad, edrychiad y troeth na faint o hylif yr oedd yn ei yfed.<br>d. Ni wyddai'r staff a holwyd pam bod gan glaf C gathetr sefydlog.<br>e. Roedd claf I wedi gwrthod meddyginiaeth er 28 Chwefror 2014 ac nid oedd dim cyfeiriad yn y nodiadau at y strategaethau i'w defnyddio yn dilyn ymweliad â'r meddyg teulu. | Rheoliad 15 (1) (a) (b) ac (c) |

| | |
|---|---|
| f. Gwelwyd diffyg gwybodaeth am ofal briwiau claf I, ar gyfer ei wlser troed yn benodol. | |
| 8. Mae gofyn i'r staff gael hyfforddiant mewn meysydd penodol, gan gynnwys gofal cathetrau, gofal briwiau, gofal dementia a chyflyrau hirdymor megis diabetes a methiant y galon. Rhaid i'r holl staff gael hyfforddiant yn y meysydd hyn er mwyn sicrhau cysondeb gofal a dealltwriaeth. | Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a) a (b) |
| 9. Rhaid gweithredu ar ganfyddiadau'r archwiliadau. Nid oedd dim tystiolaeth o'r camau a gymerwyd ar ôl gweld diffygion mewn rhai o'r archwiliadau megis yr archwiliad o nodiadau clinigol yn Ionawr – Chwefror 2014. | Rheoliad 19 (1) (a) (b) |
| 10. Nid oedd dim tystiolaeth y gweithredwyd ar ganfyddiadau'r asesiad o glymiadau dyddiedig 11 Rhagfyr 2013. | Rheoliad 19 (1) (a) (b) |
| 11. Nid oedd llofnodion clinigwr cyfrifol ar gofnodion digwyddiadau (IR1) ac roedd y dalenni dyblyg yn anodd eu darllen. (DS: mae'r clinigwyr cyfrifol yn llofnodi'r cofnodion, ond nid y ddalen ddyblyg felen. Caiff hon ei thynnu ymaith cyn ei rhoi i'r clinigwr cyfrifol). Er hynny, rhaid bod yn gallu gweld llofnod y clinigwr cyfrifol fel rhan o'r broses archwilio a rhaid iddo fod yn ddarllenadwy. | Rheoliad 19 (1) (a) a (b) |
| 12. Nid oedd geirdaon yn ffeil un aelod staff. Rhaid i eirdaon fod ar gael a chael eu cadw yn ffeiliau'r holl staff. | Rheoliad 21 (2) (d) |

Rhaid i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **22 Ebrill 2014** yn disgrifio'r camau y bwriadwch eu cymryd i roi sylw i bob un o'r materion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu roi manylion amserlenni a phwy sy'n gyfrifol am fwrw'r gweithredu yn ei flaen. Pan fydd AGIC wedi cytuno bod y cynllun gweithredu yn briodol bydd gofyn i chi ddarparu diweddariadau cynnydd misol.

Pan ddaw'r llythyr hwn i law, bydd gofyn i'r Darparwr Cofrestredig wneud sylw ar gywirdeb ffeithiol y materion a nodir a phan ddaw'r cynllun gweithredu i law, caiff copi o'r llythyr rheoli hwn, ynghyd â'ch cynllun gweithredu eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Mae'n bosibl y cynhaliwn ymweliad pellach i sicrhau bod y materion uchod wedi cael y sylw priodol a byddwn yn cynnal ymweliadau amlach os byddwn yn pryderu nad yw'r camau angenrheidiol yn cael eu cymryd yn amserol.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn.

Anfonir copi o’r llythyr hwn at Ms Andrea Lewis, Rheolwr yn Ysbyty Aderyn.

Yn gywir



**Mr John Powell**
Pennaeth Rheoleiddio

cc – Ms Andrea Lewis, Ysbyty Annibynnol Aderyn, Penperlleni, Pont-y-pŵl NP4 0AH